



GIG CERI SIARAD - CEREDIGION

# Y SELAR BACH

Y CYLCHGRAWN CERDDORIAETH CRYNO AR GYFER PLANT CYNRADD • RHIFYN 2

# BAND Y MIS Y CLEDRAU



GIG SIARTER IAITH CWM RHYMNI

YSGOL GYFUN CWM RHYMNI SAFLE GELLIHAF

10-11.30

DYDD MIWSIG CYMRU

Y CLEDRAU  
Y SYBS  
9 CHWEFROR 2018

y.selar

[mentercaerffili.cymru](http://mentercaerffili.cymru)



CYMRAG

Siarter Iaith



**AELODAU:** Joseff Owen – gitâr a phrif ganwr; Ifan Prys – gitâr a llais cefndir; Marged Gwenllian – gitâr fas a llais cefndir; Alun Lloyd – drymiau.

**O BLE:** Llanuwchllyn, Y Bala a Llanfaelog.

**FFURFIWYD:** 2012.

**RECORDIAU:** Un ar ôl y Llall (EP), Peiriant Ateb (albwm).

**UCHAFBWYNTIAU GIGS:**

- Maes B, Eisteddfod 2015.
- Gig Neuadd Buddug gyda Houdini Dax a Candelas.
- Gig pen-blwydd Recordiau I Ka Ching – Gorffennaf 2016.
- Y Ddawns Ryng-golegol 2017.
- Clwb Ifor Bach fis Medi 2017 gydag Yr Eira ac Yr Oria.

**FFEITHIAU DIDDOROL:**

- Mae Joseff ac Alun yn gefndryd cyntaf.
- Mae Ifan Prys yn un o gyfranwyr rheolaidd cylchgrawn Y Selar.
- Mae Joseff yn chwarae cymeriad 'Wil' ar y rhaglen Rownd a Rownd ar S4C.
- Cyrhaeddodd Y Cledrau rownd derfynol Cân i Gymru 2013 gyda'r gân 'Agor y Drws'.
- Mae Y Cledrau newydd ryddhau eu halbwm cyntaf, sef Peiriant Ateb.
- Mae Ifan Prys hefyd yn gallu chwarae'r delyn.

**RHESTR CHWARAE:**

- ▶ *Cliria dy Betha*
- ▶ *Lawr y Lôn*
- ▶ *Roger Rodger*
- ▶ *Craig*
- ▶ *Yr Un Hen Gân*



FFEIL O  
FFEITHIAU

B A N D Y M I S  
**Y CLEDRAU**





# Be sy'n newydd?



## 5 cân i wrando arnyn nhw

- ▶ *Lipstick Coch* – Adwaith
- ▶ *Aros o Gwmpas* – Omaloma
- ▶ *Gad i mi Gribo dy Wallt* – Bitw
- ▶ *Cyrn yn yr Awyr* – Band Pres Llaeggub
- ▶ *Peiriant Ateb* – Y Cledrau



## 5 record newydd i'w prynu

- \* *Toddi* – Yr Eira
- \* *Peiriant Ateb* – Y Cledrau
- \* *Llaeggub* – Band Pres Llaeggub
- \* *Pyroclastig* – Pyroclastig
- \* *Oshh* – Oshh



## 5 uchaf Y Selar

Dyma'r pump band sydd wedi dal sylw Y Selar fwyaf y mis yma:

- 1. Y Cledrau** – albwm newydd, prif fand Gig Ysgolion Cwm Rhymni a llun ar glawr Y Selar.
- 2. Yr Eira** – lot o gigs yn ddiweddar, a nhw fydd prif fand Gwobrau'r Selar.
- 3. Alys Williams** – fideo newydd gwych i'r gân 'Llygad Ebrill', ac ar restr fer categori 'Artist Unigol Gorau' Gwobrau'r Selar.
- 4. Serol Serol** – un o'n hoff fandiau newydd! Pop gofodol o Ddyffryn Conwy, ac mae albwm cyntaf bron yn barod.
- 5. Candelas** – prif fand gig ysgolion Ceredigion, a band byw gorau Cymru.

## GWOBRAU'R SELAR

Gwobrau'r Selar ydy'r gwobrau cerddoriaeth Gymraeg sy'n cael eu cynnal bob blwyddyn. Mae'n digwydd yn Aberystwyth eleni ar nos Sadwrn 17 Chwefror, a bydd 11 o wobrau'n cael eu rhoi i enillwyr categorïau fel 'Band Gorau', 'Record Hir Orau' a 'Digwyddiad Byw Gorau'.

Bydd dros 1,000 o bobl yn teithio i'r digwyddiad i fwynhau perfformiadau gan ddeg o artistiaid prysuraf y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Yr Eira, Band Pres Llaeggub, Omaloma, Mr Phormula a Cadno.

Cadwch olwg ar wefan Y Selar i weld pwy fydd wedi ennill!

## MWY AM GERDDORIAETH GYMRAEG...



- \* *Gwefan y Selar*
- \* *Blog Sôn am Sîn*
- \* *Blog Pop Cymru*
- \* *Sianel YouTube Ochr 1*
- \* *Gwefan Dydd Miwsig Cymru*





- Enw: **Caitlin**
- Hoff fand Cymraeg: **Candelas**
- Hoff gân Gymraeg: **'Cyrn yn yr Awyr' gan Band Pres Llaeggub**
- Lle fyddi di'n gwrandu ar dy gerddoriaeth? **Ar fy ffôn**
- Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? **Candelas, Alys Williams ac Yws Gwynedd**
- Marciau allan o ddeg am y Gig Ceri Siarad: **9/10**



- Enw: **Tomi**
- Hoff fand Cymraeg: **Sŵnami**
- Hoff gân Gymraeg: **'Suddo' gan Yr Eira**
- Lle fyddi di'n gwrandu ar dy gerddoriaeth? **Spotify a YouTube**
- Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? **Sŵnami, Candelas a Band Pres Llaeggub**
- Marciau allan o ddeg am y Gig Ceri Siarad **9.5/10**



- Enw: **Eleias**
- Hoff fand Cymraeg: **Candelas / Tebot Piws / Edward H**
- Hoff gân Gymraeg: **'Rhedeg i Paris' - Candelas / 'Gweld y Byd Mewn Lliw' - Band Pres Llaeggub**
- Lle fyddi di'n gwrandu ar dy gerddoriaeth? **Spotify a CDs**
- Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? **Candelas, Yws Gwynedd a Band Pres Llaeggub**
- Marciau allan o ddeg am y Gig Ceri Siarad **9.5/10**

## SELAR YN GIGIO... YN YR YSGOL

Ddydd Gwener 15 Rhagfyr cynhaliwyd 'Gig Ceri Siarad' – gig ysgolion Ceredigion, gyda 1,200 o blant blynyddoedd 5, 6 a 7 y sir yn teithio i Bafliwn Bont i fwynhau perfformiadau gan Mellt a Candelas. Un o'r ysgolion fu yno oedd Ysgol Gymraeg Aberystwyth, a bu'r Selar yn holi rhai o'r criw ynglŷn â'r gerddoriaeth maen nhw'n mwynhau.



- Enw: **Cari**
- Hoff fand Cymraeg: **Candelas**
- Hoff gân Gymraeg: **'Rhedeg i Paris' - Candelas**
- Lle fyddi di'n gwrandu ar dy gerddoriaeth? **Radio, YouTube, ffôn**
- Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? **Candelas, Yr Eira ac Yws Gwynedd**
- Marciau allan o ddeg am y Gig Ceri Siarad **10/10**



- Enw: **Ffion**
- Hoff fand Cymraeg: **Candelas**
- Hoff gân Gymraeg: **'Brenin Calonnau' - Candelas**
- Lle fyddi di'n gwrandu ar dy gerddoriaeth? **YouTube a CDs**
- Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? **Candelas, Yws Gwynedd a Sŵnami**
- Marciau allan o ddeg am y Gig Ceri Siarad **10/10**



- Enw: **Coel**
- Hoff fand Cymraeg: **Sŵnami**
- Hoff gân Gymraeg: **'Dihoeni' (Neu 'O Na Mai'n Ddolg Eto' gan Frizbee yn ystod mis Rhagfyr!)**
- Lle fyddi di'n gwrandu ar dy gerddoriaeth? **YouTube**
- Pa dri band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? **Mellt, Yr Eira a Band Pres Llaeggub**
- Marciau allan o ddeg am y Gig Ceri Siarad: **9/10**